

CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#)

Yn Bresennol: Y Cyngorydd Susan Lloyd-Selby (Maer); Cynghorwyr Anne Asbrey, Julie Aviet, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Robert Fisher, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Emma Goodjohn, William Hennessy, Sally Hanks, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Michael Morgan, Helen Payne, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ruba Sivagnanam, Neil Thomas, Rhys Thomas, Steffan Wiliam, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood.

253 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Maer y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

254 MUNUD O DDISTAWRWYDD AR GYFER EI DIWEDDAR FAWREDD Y FRENHINES ELIZABETH II –

Safodd Aelodau'r Cyngor mewn munud o dawelwch fel arwydd o barch yn dilyn marwolaeth Ei Diweddar Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II.

255 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr Russell Godfrey, Ewan Goodjohn*, Stephen Haines, Howard Hamilton*, Naomi Marshallsea, Jayne Norman*, Ian Perry*, Joanna Protheroe*, Carys Stallard* a Margaret Wilkinson.

(D.S. Roedd y Cynghorwyr a nodwyd gyda seren yn mynychu o bell ac yn cael anawsterau technegol ac felly nid oeddent yn gallu cymryd rhan gan nad oedd modd eu gweld na'u clywed.)

256 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

257 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2022 fel cofnod cywir, yn amodol ar gynnwys enw'r Cynghorydd Gilligan yng nghofnod Ymddiheuriadau am Absenoldeb.

258 CYHOEDDIADAU –

Hysbysodd y Maer y Cyngor o farwolaeth cyn-Gynghorydd Bro Morgannwg John Fraser a mynegodd ei chydymdeimlad dwys â'i deulu ar ran y Cyngor.

Ers cyfarfod diwethaf y Cyngor, bu mewn 12 digwyddiad, ac y mae manylion y rhain yn ei chyfoesiad rheolaidd ar wefan y Cyngor.

O ran cronfa Grantiau sefydliad y Maer, derbyniwyd dros 20 cais gan wahanol fudiadau yn y Fro yn ystod y rownd ddiweddaraf o geisiadau, a bydd y rhain yn cael eu hystyried dros yr ychydig wythnosau nesaf; caiff yr ymgeiswyr wybod am y canlyniad cyn gynted ag sydd modd wedi hynny.

Troes ei sylw wedyn at farwolaeth ei diweddar Fawrhydi y Frenhines Elisabeth II, gan adlewyrchu ar ei bywyd rhyfeddol, ei gwasanaeth a'i ymrwymiad i ddyletswydd. Byddid yn ei chofio am ei ffydd a'r gwerthoedd a'r traddodiadau a gynhaliodd, gan gyflawni ei haddewid i wasanaethu a gwneud hynny gydag empathi, urddas a thrugaredd. Yr oedd wedi anfon llythyr o gydymdeimlad at y Brenin a'i deulu ar ran trigolion Bro Morgannwg. Cyfeiriodd hefyd at y llyfrau cydymdeimlad swyddogol yn ystod y cyfnod o alaru a fyddai ar agor ar-lein yn ogystal ag yn y Swyddfeydd Dinesig, Depo Alps, Swyddfeydd y Dociau ac mewn Cynghorau Tref a Chymuned ledled y Fro.

Diolchodd i bawb a fynychodd Seremoni Proclamsiwn y Brenin Siarl III a gynhaliwyd ar ddydd Sul, Medi 11 ar flaengwrt y Swyddfeydd Dinesig. Cafwyd tyrfa dda a ffrydiwyd y digwyddiad yn fyw gan Bro Radio.

Ar ddydd Gwener, 16 Medi, ynghyd a'i chymar, Arweinydd y Cyngor a dau aelod o Fforwm Ieuencid y Fro, cawsai'r anrhydedd o fod mewn gwasanaeth coffa yng Nghadeirlan Llandaf ym mhresenoldeb y Brenin Siarl III a'r Frenhines Gydweddog.

Diolchodd hefyd i bawb a fynychodd y gwasanaeth coffa a gynhaliwyd ganddi er cof am y diweddar Frenhines Elisabeth II yn Eglwys yr Holl Saint, Y Barri ar ddydd Sul, Medi 18. Cafodd hwn hefyd ei ffrydio'n fyw gan Bro Radio gyda bron i 1,500 o bobl yn gwyllo'r gwasanaeth ar-lein.

Yr oedd ar ddeall fod Arweinyddion Grwpiau gwleidyddol y Cyngor am dalu eu gwrogaeth i'r Frenhines Elisabeth II trwy gyfleu neges fer o gydymdeimlad ar ran eu Grwpiau. Rhoddodd gyfle i Aelodau annibynnol y Cyngor wneud yr un fath.

Rhoddwyd y negeseuon cydymdeimlad a ganlyn:

Arweinydd y Cyngor (ar ran y Grŵp Llafur), y Cynghorydd Lis Burnett -

Yr oeddwn yn ffodus, ynghyd â'r Maer a'i chymar, i gynrychioli Cyngor Bro Morgannwg yng Nghadeirlan Llandaf yn y gwasanaeth coffa diweddar.

O edrych yn ôl, rwy'n meddwl mai'r ddelwedd o'r diweddar Frenhines Elisabeth II yn eistedd ar ei phen ei hun yn angladd ei gŵr yw'r un a erys ym meddyliau llawer ohonom dros y blynyddoedd.

Daliodd yr un ddelwedd honno, mewn un ennyd, eu hurddas, ei phenderfyniad i gadw at y rheolau, waeth beth oedd y gost bersonol, a'i hymroddiad i oes o wasanaeth cyhoeddus dros ddeg a thrigain o flynyddoedd maith.

Ar yr adeg pan esgynnodd hi i'r orsedd, ychydig iawn o fenywod fyddai mewn safleoedd o rym na dylanwad, ond trwy edrych ar yr hyn sy'n ein huno yn hytrach na'r hyn sy'n creu rhaniadau, anogodd bobl, cymunedau a gwledydd i weithio gyda'i gilydd. Bydd colled fawr ar ei hôl ac estynnaf fy nghydymdeimlad i'r Teulu Brenhinol.

Arweinydd Annibynwyr Llanilltud Fawr yn Gyntaf – y Cynghorydd Gwyn John –

Gyda thristwch mawr y clywais fod Ei Mawrhydi y Frenhines wedi marw.

Chwech oed oeddwn i pan ddaeth Ei Mawrhydi yn Frenhines ac yr addawodd gysegru ei bywyd i wasanaethu'r genedl: anaml iawn y cadwyd mor ffyddlon at addewid.

Y Frenhines Elisabeth II oedd craig ein cenedl ac yr oedd yn annwyl gan filiynau ledled Prydain fawr, y Gymanwlad a'r byd.

Yr oedd ei hymrwymiad i ddyletswydd yn amlwg hyd yn oed yn nyddiau olaf ei bywyd, pan gyfarfu â'r Prif Weinidog newydd.

Yr oedd Ei Mawrhydi yn olau disglair i'r genedl mewn cyfnodau o drafferth a loes, ac ychydig flynyddoedd yn unig yn ôl, siaradodd Ei Mawrhydi wrth y genedl yn ystod y cyfnod clo, gan roi sicrwydd i ni y buasem yn goresgyn Covid ac y buasem yn cwrdd eto, a roes hyder i'r genedl oresgyn eu hofnau.

Ni chaiff y Frenhines Elisabeth II fyth ei hanghofio, ond fe'i cofir gan filiynau ledled y byd. Ni fydd y Nadolig fyth yr un fath eto.

Mae ein meddyliau yn y cyfnod hwn gyda'r Teulu Brenhinol a fydd mewn galar wedi eu colled drist, a bydd oriau caled o'u blaenau.

Bendith Duw ar Ei Mawrhydi; gorffwysed mewn hedd.

Arweinydd Grŵp y Ceidwadwyr – y Cynghorydd George Carroll –

Gwasanaethodd ei diweddar Fawrhydi y Frenhines Elisabeth II ein gwlad fawr fel na wnaeth neb arall. Ymgysgrodd ei hun i wasanaethu pob un ohonom yma ym Mhrydain ac yn y Gymanwlad. Daeth hefyd yn ffigwr a enynnodd barch a

chydabyddiaeth ledled y byd. Wrth gydymdeimlo â ni, dywedodd yr Arlywydd Macron o Ffrainc mai “i chi, hi oedd Eich Brenhines ond i ni, hi oedd Y Frenhines” a theyrnedau fel hyn a welsom gan arweinyddion o bob cwr o’r byd sy’n dangos ei bod yn ddiamau yn un o ffigyrau mawr hanes. Yn wir, credaf mai fel Elisabeth Fawr y dylid ac y caiff ei chofio. Yn dilyn marwolaeth ei diweddar Fawrhydi, cafwyd cyfnod o alaru cenedlaethol. Gwnaethom atal llawer o’n gweithgareddau arferol, ac yr oedd hynny’n briodol; adlewyrchir hyn yn ein hagenda ar gyfer cyfarfod heno, sy’n ysgafnach na’r arfer. Disgynnodd y terfyn amser i gyflwyno busnes i’w drafod yng nghyfarfod heddiw yn ystod y cyfnod galaru, felly penderfynodd ein grŵp beidio â chyflwyno unrhyw gwestiynau na dadleuon, a nodaf fod Grwpiau eraill hefyd wedi penderfynu peidio â gwneud hynny. Ond ar waethaf tristwch yr achlysur, credaf hefyd fod yr ychydig wythnosau diwethaf wedi dwyn ein gwlad at ei gilydd. Gwelsom Brydain ar ei gorau a gweld y gorau o’n cymunedau, mewn ffordd y buasai ei diweddar Fawrhydi wedi dymuno. Yn fy ward i yn Llandochoau, talodd ein cymuned deyrnged trwy osod blodau ar grin y pentref, arwydd teimladwy iawn, a ledled y Fro, cafwyd nifer o ddiwyddiadau fel y rhai a grybwyllwyd gennych chi. Carwn ddiolch i Eglwys yr Holl Saint am y rhan a chwaraewyd ganddynt, a diolch i chwithau, Madam Maer, am ein cynrychioli ni oll. A rhaid i ni dalu teyrnged hefyd i’w Fawrhydi y Brenin. Yn amlwg, mae hon yn adeg o alar personol dwys iddo ef a’r Teulu Brenhinol cyfan. Ond ar waethaf hyn, mae wedi dangos yr un ymrwymiad a gwasanaeth a ddangoswyd gan ei diweddar Fawrhydi trwy ei hoes. Mae’r Brenin newydd gymryd rhan mewn rhaglen hynod drom, rhywbeth na ddylai neb sydd newydd ddiweddef profedigaeth yn y teulu agos wynebu. Mae wedi sefyll yn gyhoeddus mewn gwylnos ger arch ei fam, wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau swyddogol ac wedi cerdded ymysg y cyhoedd ym mhob cwr o Brydain. I gau fy sylwadau, Madam Maer, hoffwn adlewyrchu ar gerdd fer gan Philip Larkin a ysgrifennwyd i nodi achlysur Jiwbilî Arian ei diweddar Fawrhydi. Fe’i hail-adroddwyd sawl gwaith dros y pythefnos a aeth heibio, ac yn wir, credaf i Arweinydd yr Wrthblaid gyfeirio ati pan dalodd ei deyrnged yn Nhŷ’r Cyffredin. Gobeithio y maddeuwch i mi, Madam Maer, am ei ail-adrodd, oherwydd er iddi gael ei hysgrifennu bum mlynedd a deugain yn ôl, credaf ei bod mewn pedair llinell fer yn ymgorffori teyrnasiad Elisabeth II yn y ffordd orau oll.

“In times when nothing stood
But worsened, or grew strange,
There was one constant good:
She did not change.”

Am bopeth a wnaethoch drosom, Ma’am, diolch.

Duw gadwo’r Brenin.

Arweinydd Grŵp Plaid Cymru– Cynghorydd Dr. Ian Johnson –

Hoffwn dalu teyrnged i’r Frenhines Elisabeth yr Ail ac estyn ein cydymdeimlad dwysaf at ei theulu.

Yn ystod teyrnasiad hir Elisabeth yr Ail gwelwyd cyfnod o newid aruthrol yng Nghymru, Prydain a gweddill y byd.

Roedd ganddi ymdeimlad dwfn o ddyletswydd a bydd miliynau ar draws y byd yn ei chofio fel ffigwr o gysur, sefydlogrwydd a pharhad ar adegau o argyfwng.

Ar gyfer llawer o bobl, mae hi'n pontio'r genhedlaeth rhwng y presennol a'r gorffennol ar ôl bywyd naw deg chwech blynedd a saith deg mlynedd fel Brenhines.

Cafodd fy nain ei geni blwyddyn cyn i'r Frenhines, ac mae'n amlwg o'r lluniau cyfredol bod hi yn rhannu delwedd a steil y Frenhines yr un oedran a hi. Roedd y Frenhines yn rhan o'r genhedlaeth a frwydrodd yr Ail Ryfel Byd. Yn yr un pryd, roedd fy nhaid yn Swyddog yn y Fyddin yn y Rhyfel Dwyrain Pell.

Mae'n naturiol felly i gydymdeimlo gyda'r golled person sy wedi cyffwrdd ein bywydau bob dydd – yr arian rydyn ni'n defnyddio a'r stamp ar lythyrau, ond yn fwy na dim gyda'r bobl ag oedd yn agos ati.

Ar ran Plaid Cymru, estynnaf ein cydymdeimlad dwysaf i'r teulu yn ystod y cyfnod anodd hwn.

259 DEFNYDD O BWERAU BRYD Y PRIF WEITHREDWR (PW) -

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o Bwerau Brys y Prif Weithredwr, ar yr amod y nodir ymhellach bod y defnydd o Bwerau Brys fel y nodir ym mharagraff 2.1(a) yr adroddiad wedi'i adrodd yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor ym mis Gorffennaf a'i gynnwys yn yr adroddiad mewn camgymeriad.

260 DIWYGIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR (AG/BA) –

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO y newid i'r dirprwyaethau perthnasol o swyddogion fel y nodir ym mharagraff 2.2 yr adroddiad a diwygio Cyfansoddiad y Cyngor yn unol â hynny.

(2) Nodi'r diwygiad i Reolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor fel y nodir ym mharagraff 2.3 yr adroddiad a diwygio Cyfansoddiad y Cyngor yn unol â hynny.

(3) Nodi'r diwygiad i wahanol deitlau portffolio'r Cabinet fel y nodir ym mharagraff 2.4 yr adroddiad a diwygio Cyfansoddiad y Cyngor yn unol â hynny.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Diweddarau'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion a darpariaethau perthnasol o fewn y Cyfansoddiad presennol.

(2) Diwygio Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor o fewn y Cyfansoddiad presennol.

(3) Diweddarau teitlau portffolio'r Cabinet o fewn y Cyfansoddiad presennol.

261 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22 (CYF) –

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr adroddiad a ddaeth i'r Cabinet i ddechrau ym mis Gorffennaf.

Dywedodd fod gofyniad mewn rheoliad y dylid adrodd am y Strategaeth, y sefyllfa canol blwyddyn, a'r union gost wrth y Cyngor, a dyma pam yr adroddwyd am y mater i'r cyfarfod. Y mae Rheolaeth Trysorlys dan reolaeth lem ac yr oedd nifer o godau megis Cod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys a Chod Darbodus CIPFA sydd yn gosod allan y gwahanol Ddangosyddion Perfformiad a gofynion adrodd.

Soniodd am faterion penodol yn yr adroddiad sy'n ymwneud â Chyfraddau Llog yr Economi yn ystod 2021/22 a chamau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU ac arweinwyr eraill y byd mewn ymateb i wahanol faterion sy'n effeithio ar eu heconomiâu cartref yn ogystal ag economi'r byd, gan gynnwys y pandemig, ymosodiad Rwsia ar Wcráin, a phwysau chwyddiant, gan gynnwys y dirwasgiad a ragfynegwyd sy'n debyg o gael effaith ac a fyddai fwy na thebyg yn parhau i mewn i 2023; Cydymffurfio a Therfynau Trysorlys a Dangosyddion Darbodus fel y'u gosodwyd allan yn y Strategaeth Trysorlys a Buddsoddi Blynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar ddechrau'r flwyddyn.

O ran yr Union Swm Benthycia, dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor, yn ystod 2021/22, wedi cadw islaw'r sefyllfa fenthycia. Ni chyllidwyd yr angen benthycia cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) yn llawn gyda dyled benthyciad allanol fel arian yn cynnal arian wrth gefn y Cyngor; defnyddiwyd balansau a llif arian fel mesur interim. Dim ond dyled a aeddfedodd a ail-gyllidwyd yn allanol gyda dau fenthyciad newydd o £8m o'r Bwrdd Benthycia Gwaith Cyhoeddus. Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf fel ar 31 Mawrth, 2022 oedd £197.7m. Yr oedd cyfanswm y Benthyciadau Allanol fel ar 31 Mawrth, 2022 yn £153.4m gyda chyfanswm o Fenthycia Mewnol fel ar 31 Mawrth, 2022 o £44.3m.

Gan gyfeirio at Union Swm y Buddsoddiad, cyfeiriodd yr Arweinydd at agwedd ofalus y Cyngor tuag at risg, gyda'i flaenoriaeth i ddiogelu cyfalaf a rheoli ei fuddsoddiadau yn fewnol. Cafwyd Balansau Buddsoddi i'r isafswm gan ddefnyddio arian wrth gefn a balansau i gefnogi benthycia mewnol yn hytrach na benthycia'n allanol ar gyfer gwariant cyfalaf. Gosodwyd buddsoddiadau gyda gwrth-bartion risg-isel am gyfnodau o hyd at 364 diwrnod a chadwyd cyfran fawr o'r portffolio buddsoddiadau yn hylif iawn oherwydd bod problem rhagweld llif arian oherwydd y symiau mawr o arian a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi adeg y pandemig.

Oherwydd coronafirws, gosododd Banc Lloegr Gyfradd banc argyfwng o 0.10% a arhosodd yn ei le tan fis Chwefror 2022 ac o ganlyniad, yr oedd elw o fuddsoddiadau yn dal yn isel iawn trwy gydol y cyfnod dan sylw.

I gloi, dywedodd yr Arweinydd mai cyfanswm balans y buddsoddiadau fel ar 31 Mawrth, 2022 oedd £93.6m a'r elw oedd £108k.

Cydnabu'r Cynghorydd Dr. Johnson, gan gyfeirio at yr adroddiad, nad oedd yn arfer trafod ei gynnwys, ond o ystyried cyd-destun presennol y DU, hwn oedd y pwnc llosg ar lawer ystyr. Gan gydnabod statws hanesyddol yr adroddiad, ond o ystyried mai'r wythnos gyfredol yw wythnos olaf Chwarter 2 2022/23, awgrymodd ei bod yn bryd ail-ystyried amserlenni dwyn adroddiadau o'r fath ymlaen fel eu bod yn berthnasol i ganiatáu dadl yn hytrach na dim ond nodi'r wybodaeth a ddarperid ganddynt. Yr oedd yn amlwg iddo ef fod y byd wedi newid llawer ers diwedd blwyddyn ariannol 2021/2, gan gyfeirio at effaith y rhyfel yn Wcráin, codiadau mewn cyfraddau llog oedd wedi codi i'r entrychion dros yr wythnos ddiwethaf o ganlyniad i'r ffaith fod Llywodraeth y DU yn mynd ati i geisio dymchwel yr economi ehangach.

Ceisiodd eglurhad gan yr Arweinydd am ba gyfarfod o'r Cyngor y byddai unrhyw gyfoesiad yn cael ei gyflwyno, ai i'r Cyfarfod Arbennig ar Dachwedd 9, ynteu'r cyfarfod arferol ym mis Rhagfyr? Os mai hwnnw a fyddai, a hynny ymhen rhyw ddeufis a hanner, holodd a oedd modd darparu briffiadau i Arweinyddion Grwpiau am y sefyllfa, a ddylid cynnal cyfarfodydd arbennig Pwyllgorau Craffu y rhai fyddai'n teimlo'r effaith fwyaf? Cyfeiriodd hefyd at amseriad yr adroddiad ariannol canol-tymor nesaf, a fyddai'r adroddiad hwnnw yn cael ei ystyried gan y Cabinet toc a beth fyddai'r trefniadau craffu wedi hynny. Yn ei farn ef, yr oedd risgiau yn ymddangos yn gynt o lawer nag a ragwelwyd.

Ni allai'r Arweinydd or-bwysleisio'r sefyllfa anodd yr oedd y Cyngor ynddi. Byddai'r adroddiad yn mynd i gyfarfod arferol y Cyngor ym mis Rhagfyr, ac yna adroddiad i'r Cabinet, a byddai'n gyhoeddus ymhell cyn cyfarfod hwnnw y Cyngor. Cadarnhaodd ei bod wedi cwrdd ag Arweinyddion Awdurdodau Lleol eraill, gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a Gweinidogion eraill, ac nad oedd neb yn bychanu maint yr her oedd o'u blaenau yn y flwyddyn i ddod. Petai Aelodau yn teimlo y byddai briffiadau ychwanegol yn fuddiol, byddai'n ymchwilio i hynny.

Holodd y Cynghorydd Franks a allai'r Arweinydd roi syniad o raddfa'r effaith ariannol andwyol oedd yn wynebu cyllidebau'r Cyngor, gan gyfeirio at y trafferthion economaidd cyfredol yn sgil penderfyniadau diwedd ar gan Lywodraeth y DU. Holodd yr Arweinydd hefyd a allai roi mwy o fanylion am y trafodaethau gydag Arweinyddion Awdurdodau Lleol eraill a ddigwyddodd trwy CLILC beth yn union oedd yr ymateb gan Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Dywedodd yr Arweinydd na allai wneud hyn ac atgoffodd yr Aelodau fod Awdurdodau Lleol trwy gydol y pandemig wedi gweithio yn agos ynghyd ar waethaf gwahaniaethau gwleidyddol ac y buasent yn parhau i wneud hynny. Byddai cyfarfodydd o leiaf bob pythefnos yn cael eu cynnal gyda Gweinidogion ar feysydd perthnasol, a byddid yn defnyddio'r rhain i rannu'r heriau sydd yn wynebu llywodraeth leol. Yr oedd y sefyllfa yn newid yn sydyn ac yr oedd yn anodd mesur cywirdeb unrhyw wybodaeth o ystyried mor newidiol yr oedd pethau. Ar waethaf yr anawsterau hyn, nid oedd yn ystyried mai priodol fyddai trafod amgylchiadau Cynghorau eraill. Byddai adrodd am Gynigion Cychwynnol y Gyllideb yn cael ei ystyried yn y dyfodol agos, a'i gobaiith hi oedd y byddid yn cymryd agwedd bwyllog at y materion hyn, ond hefyd drafodaethau adeiladol trwy bob Pwyllgor Craffu er mwyn gweld y ffordd orau i gyflwyno gwasanaethau i ddinasyddion ym Mro Morgannwg at y dyfodol.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22 a ystyriwyd gan y Cabinet ar 21 Gorffennaf 2022 (Mae Cofnod Rhif C48 yn cyfeirio at hyn).

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

262 CWESTIYNAU SY'N UNOL AG ADRAN 4.18 O GYFANSODDIAD Y CYNGOR –

Cyflwynwyd yr ymatebion a ganlyn i gwestiynau gan yr Aelodau a oedd wedi'u nodi ar yr agenda.

(i) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Mae'r argyfwng costau byw sy'n cael ei deimlo ledled cymdeithas wedi ei ddogfennu'n dda. Mae cyflwyno cinio ysgol am ddim i bob plentyn oedran babanod mewn ysgolion cynradd (hyd at Flwyddyn 2) ym Mro Morgannwg felly i'w groesawu yn arbennig oherwydd yr help mae'n roi. Rwy'n falch fod Cyngor y Fro wedi mynd ymhellach na gofynion Llywodraeth Cymru o ran gweithredu'r polisi hwn o eiddo Plaid Cymru a ddaeth yn rhan o Gytundeb Cydweithredu 2021. Pa amcangyfrif a wnaed o gost ymestyn y polisi hwn ar draws pob ysgol gynradd (gan gynnwys Blynyddoedd 3 i 6) ac ysgolion cyfun yn y wlad?

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Mae'r Cyngor, ynghyd â'i gwmni masnachu Big Fresh, wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau fod gan bob disgybl y ddarpariaeth orau bosib yng nghyswllt prydau ysgol am ddim, ac y mae'n falch o fod yn un o'r ychydig rai yn y wlad sydd wedi gallu cyflwyno'r ddarpariaeth estynedig o gychwyn y tymor academaidd hwn. Yn amodol ar gael y cyllid priodol, disgwyliwn allu ymestyn y ddarpariaeth hon i Flynyddoedd 3 i 6 ym Medi 2023.

Mae cyfarpar eisoes yn ei le mewn ysgolion cynradd i wneud lle i'r twf yn y galw a chynyddwyd staffio mewn ysgolion er mwyn cyflwyno'r ddarpariaeth gyfredol. Yr arian a dderbynnir ar hyn o bryd ar gyfer pryd ysgol am ddim i bawb yw £2.90 ac y mae i fod i dalu am holl gostau cyflwyno'r gwasanaeth; fodd bynnag, mae hyn yn cael ei ystyried yn genedlaethol gyda Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru a chydweithwyr o Lywodraeth Cymru, o gofio fod y gost wirioneddol yn yr hinsawdd bresennol yn debyg o fod yn uwch na hyn.

Buasem yn croesawu unrhyw gyllid ychwanegol i gyflwyno'r ddarpariaeth hon mewn ysgolion cyfun hefyd, ac yr ydym yn amcangyfrif y byddai hyn yn costio tua £6.5m am 12,000 o brydau ychwanegol y dydd am ddisgyblion ysgolion cyfun. Byddai costau ychwanegol hefyd ar gyfer cyfarpar a staffio i reoli'r galw dyddiol ychwanegol mewn ysgolion.

Atodol

Gan gyfeirio at y Cytundeb Cydweithio rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru (LIC) a chyfeirio at y cyllid ychwanegol fydd ei angen y flwyddyn nesaf i Flynyddoedd 3 i 6, holodd y Cyngorydd Dr. Johnson a oedd yn cael ei ragweld y byddai cyllideb LIC yn cael ei chynyddu i dalu am hyn.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod hyn yn amodol ar arian yn bod ar gael. Nid oedd mewn sefyllfa i ddyfalu beth fyddai LIC yn dderbyn yn ei setliad.

Gan droi at y Cytundeb Cydweithio, tynnodd yr Arweinydd sylw at yr hyn y gellid ei wneud trwy weithio ynghyd, gan amlygu'r ffaith fod y Cyngor wedi llwyddo i weithio mewn clymbleidiau sawl gwaith gan rannu'r un nod. Wrth i'r Cyngor fynd ati i osod cyllideb, roedd yn bwysig edrych ar fannau lle byddai gweithio ynghyd o gymorth.

(ii) Cwestiwn gan y Cyngorydd Dr. I.J. Johnson

Pan fydd trigolion lleol yn adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol (e.e. tipio anghyfreithlon neu graffiti) wrth Fro Morgannwg, ond nad yw'r tir yn eiddo i'r Cyngor a/neu nid oes gennym gyfrifoldeb dros y tir, pa ymateb a roddir iddynt i esbonio'r sefyllfa hon?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Gymdogaeth a Gwasanaethau Adeiladu

Fe ddywedwn yn gyntaf fod y cyfrifoldeb am warchod tir neu eiddo preifat rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol, megis tipio anghyfreithlon a graffiti, yn gorwedd gyda pherchenogion y tir neu'r eiddo dan sylw. Mewn achosion o'r fath, buasem yn wastad yn annog hysbysu'r heddlu o ddifrod troseddol i ddechrau. Yn dibynnu ar ymchwiliadau'r heddlu, gallem drafod fel Partneriaeth Diogelwch Cymunedol er mwyn pennu a allai'r Cyngor a'i bartneriaid eraill, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, lechyd Cyhoeddus a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, fod â rôl i helpu i atal gweithgaredd o'r fath rhag digwydd eto. Mae hyn yn aml yn digwydd pan fydd nifer o achosion yn dod gyda'i gilydd, megis tagio graffiti, sy'n effeithio ar sawl ardal a/neu eiddo.

Yr eithriad i hyn yw lle bo graffiti ar eiddo preifat yn sarhaus neu yn hiliol, ac os felly, ein nod yw ei ddileu ymhen 24 awr, yn amodol ar gytuno ymlaen llaw gyda'r perchennog.

Os oes gennych unrhyw bryderon penodol ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol ar eiddo neu dir preifat, byddwn yn fwy na bodlon i drafod hyn gyda'n Tîm Diogelwch Cymunedol. Fel arall, dylai trigolion gael eu cyfeirio at ein gwefan, sydd â manylion am ein cyfrifoldebau yn hyn o beth, neu at C1V.

Atodol

Gan gyfeirio at ddau ddigwyddiad ar wahân lle'r adroddodd y cyhoedd i C1V am ymddygiad gwrthgymdeithasol, tipio anghyfreithlon ar dir preifat a graffiti, a'r unig ateb a gafwyd oedd bod yr "achos wedi ei gau" heb unrhyw eglurhad, ceisiodd y

Cynghorydd Dr. Johnson gyfarfod gyda'r Cynghorydd Wilson a chynrychiolwyr C1V i ddeall sut y gallai'r Cyngor esbonio'n well i aelodau'r cyhoedd beth oedd yn digwydd adeg tipio anghyfreithlon ar dir heb fod yn eiddo i'r Cyngor a'u bod o leiaf yn cael eglurhad am sut yr oedd pethau yn bwrw ymlaen er mwyn iddynt ddeall yn well beth oedd systemau'r Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson ei fod yn hapus, ynghyd a chydweithwyr eraill yn y Cabinet, i ymchwilio ymhellach i hyn.

(iii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Yn yr Asesiad o Ddatganiad Amgylcheddol y tir yn Nociau'r Barri, Medi 5, 2022, daeth yr Arolygydd i'r casgliad fod "y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd gan Biomass UK No.2 Cyfyngedig dyddiedig Gorffennaf 2022 i'w gadarnhau fel un sydd yn cynnwys y lefel o wybodaeth a nodwyd yn Rheoliad 17 ac Atodlen 4 o Reoliadau AEA a'i fod yn gyflawn at ddibenion y Rheoliadau hynny".

Daeth yr Arolygydd i'r casgliad hwn cyn cwblhau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Dachwedd 23 2022.

A oes gan y Cyngor farn am amseriad casgliad yr Arolygydd (cyn i'r broses ymgynghori cyhoeddus ddod i ben), a pha gyngor all y Cyngor roi i'r cyhoedd am effaith y casgliad y daeth yr Arolygydd iddo, rhag ofn i bobl dybio nad oes pwynt ymateb i'r ymgynghoriad os yw'r Arolygydd eisoes wedi dod i benderfyniad?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymwneud Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio

Mae'r arolygydd a benodwyd gan Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Cymru (PCAC) yn wir wedi cadarnhau fod y Datganiad Amgylcheddol (DA) a gyflwynwyd gan Biomass UK No.2 Cyfyngedig wedi cwrdd â'r gofynion a osodir allan yn Rheoliadau Perthnasol yr Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA). Felly mater o broses yw hynny, nid sylwedd, ac ar y broses, dyna farn yr Arolygydd. Ni ddaeth yr Arolygydd i unrhyw gasgliad ynghylch derbynioldeb y datblygiad o ran cynllunio, felly mewn geiriau eraill na wnaed penderfyniad am sylwedd cynnwys yr AE.

Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus sydd i fod i ddod i ben ym mis Tachwedd eleni yn gwahodd sylwadau am y Datganiad Amgylcheddol (DA) yn gyffredinol, ac nid yw wedi ei gyfyngu yn benodol i gydymffurfio â Rheoliad 17. Ystyrir felly na ddylai adroddiad PCAC o Fedi 5 2022 atal aelodau'r cyhoedd rhag cymryd rhan yn y broses ymgynghori.

Dylai'r holl Aelodau, fel y gwyddoch, Gynghorydd, fod wedi derbyn e-bost gen i erbyn hyn yn eu gwahodd i friffiad am y broses apelio, ac edrychaf ymlaen at eich gweld yno.

Atodol

Gan ailadrodd ei brif bryder ynghylch casgliadau'r Arolygydd, gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson a oedd yr Aelod Cabinet yn cytuno ag ef, wedi'r broses

fynd rhagddi ers amser maith, fod y cyhoedd yn dal mewn sefyllfa lle teimlent eu bod yn cael eu camarwain ac nad oeddent yn cael rhyddid i ystyried y broses am eu bod yn cael ar ddeall gan yr Arolygydd ei fod ef yn tybio bod hyn yn dderbyniol?

Gan gyfeirio at ei hateb blaenorol, dywedodd yr Aelod Cabinet mai proses oedd hon a bod gan yr Arolygydd restr o faterion y byddai'n rhaid iddi/o ystyried yn yr AEA. Nid penderfyniad am y sylwedd ydoedd. Byddid yn ymgynghori â'r cyhoedd am hynny gan ei fod yn dod dan y rheoliadau. Ni phenderfynwyd eto ar sylwedd yr apêl.

(iv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Ym mharagraff 12 asesiad yr Arolygydd o'r Datganiad Amgylcheddol (DA) am y tir yn Nociâu'r Barri, a gyhoeddwyd ar Fedi 5 2022, mae'r Arolygydd yn trafod methodoleg yr asesiad ac yn ysgrifennu "Na fu unrhyw ymgynghori penodol wrth baratoi'r DA hwn. Nid yw gadael hyn allan yn hanfodol bwysig gan y bu ymgynghori fel rhan o'r cais 2015, proses y Drwydded Amgylcheddol (gan CNC) ac ar gyfer y DAG" (Datganiadau Amgylcheddol Gwirfoddol).

Os ystyrir fod ymgynghoriadau blaenorol, yn ddi-gwestiwn, i fod yn sail i'r Datganiad Amgylcheddol cyfredol, yna mae rheswm hefyd dros archwilio'r ymgynghoriadau hyn yn llym gan fod y DA cyfredol yn gorffwys ar iddynt gael eu trin yn gywir. Fodd bynnag, bydd gwneud hynny yn ychwanegu'n sylweddol at y deunydd y gall y cyhoedd ac eraill fod angen ei ystyried. Mae hyn yn gwneud y dasg o ymateb ymhen 90 diwrnod yn amhosib yn ymarferol, o ystyried maint y dogfennau a gyhoeddwyd eisoes fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Gan nodi'r gofynion ychwanegol a ddaw o sylwadau'r Arolygydd, pa amserlen newydd yr ystyria'r Cyngor yn briodol er mwyn i'r cyhoedd ymateb yn llawn?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymwneud Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio

Fel y deallaf, ystyrir y cyfnod ymgynghori o 90 diwrnod yn briodol er mwyn caniatáu i sylwadau gael eu cyflwyno ynghylch y Datganiad Amgylcheddol (DA), ac y mae Rheoliadau'r Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) mewn gwirionedd yn mynnu 30 diwrnod. Cytunwyd ar gyfnod o 90 diwrnod gan PCAC ac fe'i hystyriwyd yn briodol am ei fod yn asio â'r cyfnod o amser a roddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer sylwadau parthed y DA Gwirfoddol blaenorol ac yna o gofio mai'r PCAC sy'n gweinyddu'r apêl, dylid gwneud sylwadau am y cyfnod ymgynghori yn uniongyrchol atynt hwy.

Atodol

Gan gyfeirio at faint sylweddol y DA ac asesiad yr Arolygydd a'r cyfeiriad at yr ymgynghori / dogfennau'r cais cynharach o 2015 a dod â rhain i mewn i'r cwmpas, holodd y Cynghorydd Dr. Johnson a oedd yr Aelod Cabinet yn ystyried yn dderbyniol disgwyl i aelodau'r cyhoedd fynd trwy doreth o ddeunydd a darparu ateb dealladwy o gymharu â chwmni enfawr oedd yn cyflwyno'r DA?

Heb fod eisiau cael ei thynnu i mewn i'r broses ei hun, atgoffodd yr Aelod Cabinet yr Aelodau y cytunwyd ar y broses gyda PCAC. Os oedd teimlad nad oedd 90 diwrnod yn gyfnod digonol i'r cyhoedd etc. ymateb, gallant gysylltu â PCAC neu fe allant ysgrifennu ati hi ei hun.

(v) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

Mae trigolion yn ceisio sicrwydd fod yr holl baratoadau ymarferol yn cael eu gwneud neu y byddant yn cael eu gwneud mewn ardaloedd bregus o Ddinas Powys ac yn wir ar draws y Fro i amddiffyn y gymuned rhag llifogydd. Buaswn yn croesawu manylion am wagio gwlliau ffyrdd a gwiriadau'n cael eu cynnal ar gysylltiadau'r gwlliau. Gwn nad yw'r awdurdod yn gyfrifol am ffyrddiau, ond os oes gennych unrhyw fanylion gan CNC am eu gwaith, byddai croeso i hynny.

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Gymdogaeth a Gwasanaethau Adeiladu

Fel y gwyddoch, mae Grŵp Gweithredu Amlasiantaethol Dinas Powys ar Llifogydd yn cwrdd yn rheolaidd i gytuno ar y camau angenrheidiol ar gyfer yr ardal hon. Yn y cyfoesiad diweddaraf gan Gyfoeth Naturiol Cymru, dywedasant wrth y Cyngor y byddid yn symud y basleoedd o silt a llystyfiant mewn gwahanol fannau lleol ar hyd Tregatwg o fan yn agos at siop Nisa, i lawr at leoliad pont droed Bryn y Don erbyn diwedd y flwyddyn.

Ar fater ehangach, gallaf gadarnhau fod holl asedau llifogydd critigol sy'n eiddo i'r Cyngor neu'n cael eu cynnal ganddynt yn cael eu harchwilio a'u cynnal yn rheolaidd. Er enghraifft, cynhelir archwiliadau wythnosol o'r holl sgriniau cilfachau critigol ar hyd dalgylch Coldbrook.

Gallaf gadarnhau hefyd y bydd rhai o'r troedffyrdd yn ardal Heol Caerdydd yn cael eu hail-wynebu yn fuan. O ystyried sensitifrwydd a'r effaith posib ar y rhwydwaith pan wneir y gwaith ger heol Caerdydd, mae hyn yn cael ei raglennu ar gyfer y bythefnos nesaf ac fe'i cwblheir dros gyfres o shifftiau gyda'r nos er mwyn lleihau unrhyw darfu ar y trigolion lleol. Unwaith i'r tîm priffyrdd gadarnhau dyddiadau gyda'r contractwr, caiff adnoddau eu neilltuo er mwyn sicrhau y bydd potiau ac ochrau'r gwlliau yn cael eu glanhau, i wneud yn siŵr eu bod yn llifo'n rhwydd ac yn gweithio fel y buasem ni'n disgwyl yn barod am y gaeaf.

Atodol

Holodd y Cynghorydd Franks ar ran trigolion bregus a oedd dan fygythiad llifogydd, beth fyddai'r Awdurdod yn wneud ar y diwrnod?

Dywedodd yr Aelod Cabinet mai mater i'r Tîm Digwyddiadau Critigol fyddai hyn, a fyddai'n rhoi'r newyddion diweddaraf yn rheolaidd trwy gyfryngau'r Cyngor ei hun, megis Bro Radio, a gwefan y Cyngor.

(vi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

A wnewch ddweud pa gynnydd y bwriadwch wneud yn y 6 mis nesaf i gyflawni ymrwymiad y Cyngor i gyrraedd sero net?

Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Fannau Cynaliadwy

Adroddwyd ddiwethaf am gynnydd y Cyngor ar gyflwyno Prosiect Sero wrth y Cabinet yng Ngorffennaf 2022 ac fe'i hystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau, a chaiff ei ystyried toc gan y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio.

Mae gwaith yn parhau ar draws y deunaw her a osodir allan yn ein Cynllun Her. Yn dilyn adborth gan Aelodau Craffu, bydd Swyddogion yn adolygu cyflwyno adroddiadau cyfoesi i ni eu hystyried.

Dros yr wythnosau nesaf, bydd y buddsoddiad a wnaeth y weinyddiaeth mewn mwy o allu i gyflwyno'r ymrwymadau yn y Cynllun Her yn gweld amrywiaeth o swyddi newydd yn cael eu llenwi, gan gynnwys yn y Tîm Ynni, rheoli rhaglenni, a chyllid.

Ymysg datblygiadau i'w nodi ar draws y chwe mis nesaf mae:

- Cwblhau gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ym meysydd parcio swyddfeydd y Cyngor. Mae'r gwaith hwn yn digwydd ar hyn o bryd.
- Cyflwyno i Lywodraeth Cymru ddadansoddiad o ail flwyddyn adrodd am ddata carbon gan y Cyngor.
- Mabwysiadu ail fersiwn Siarter Teithio Iach y BGC.
- Adolygu trefniadau caffael yn unol â'r canllawiau a ragwelir gan CLILC ar ddad-garboneiddio caffael er mwyn nodi cyfleoedd i wreiddio hyn yn ein harferion caffael.
- Derbyn yr adroddiad a gomisiynwyd gennym ar effaith carbon cyffredinol Bro Morgannwg i fod yn sail i strategaeth o weithio gyda'r gymuned, busnesau a diwydiant i leihau allyriadau.
- Rhoi technoleg awtomatig monitro dŵr yn nifer o adeiladau'r Cyngor i leihau dŵr sy'n gollwng.
- Ymwneud â'r cyhoedd a phartneriaid ar Strategaeth seilwaith Gwyrdd y Cyngor
- Parhau a gwella'r ymgyrch gyfathrebu fewnol ac allanol i gefnogi a hyrwyddo newid ymddygiad cadarnhaol.
- Cwblhau'r ymgynghori a dechrau gweithredu'r Strategaeth Rheoli Gwastraff, gan gynnwys parhau â'r paratodau i gwblhau cyflwyno'r glasbrint ailgylchu yn Nwyrain y Fro.
- Cymryd mwy o gamau i resymoli ymhellach bortffolio swyddfeydd y Cyngor.
- Parhau i gyflwyno'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

Daw'r adroddiad nesaf ar gynnydd gerbron Pwyllgorau a'r Cabinet cyn diwedd y flwyddyn.

Atodol

Holodd y Cynghorydd Franks a allai'r Aelod Cabinet nodi pa gynlluniau oedd ar droed i gyflwyno paneli solar yn eiddo'r Cyngor, Adeiladau Sifig ac i insiwleiddio'r cyfryw eiddo?

Nid oedd y wybodaeth i law gan yr Aelod Cabinet, a dywedodd y byddai'n rhoi ateb ysgrifenedig.

(vii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

Ym mha ffordd mae Cyngor y Fro yn cynorthwyo canolfannau cymuned i ymdopi a chost gynyddol ynni?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles

Gallaf gadarnhau y bydd Swyddogion yn trefnu cyfarfodydd gyda Phwyllgorau Canolfannau Cymuned ar fyrder i drafod materion sy'n gyffredin iddynt, gan gynnwys cost gynyddol ynni, ac y bydd cynrychiolwyr tîm ynni y Cyngor yn bresennol i roi cyngor ar leihau costau. Mae'r Swyddogion hefyd yn chwilio am grantiau pellach i osod technoleg werdd yn ein Canolfannau Cymuned i leihau dibyniaeth ar gyflenwadau trydan a nwy yn y dyfodol.

Ni fûm yn ymwybodol fod unrhyw rai o'r 22 Canolfan Gymuned yn gofyn am gymorth ariannol gyda'u costau ynni. Rwy'n amau ein bod oll yn aros i weld pryd a sut y bydd cyhoeddiad diweddar y Llywodraeth ar ddydd Mercher, Medi 21, 2022 ar filiau ynni yn effeithio ar y sector wirfoddol.

Atodol

Gan gyfeirio at y sôn a fu am gael canolfannau cynnes yn y gymuned ac mewn canolfannau cymuned, holodd y Cynghorydd Franks a fyddai'r Aelod Cabinet yn ystyried cefnogaeth ariannol i ganolfannau cymuned i ddarparu canolfannau cynnes o'r fath?

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at ei ateb yn gynharach y byddai'r Cyngor yn chwilio am grantiau i gefnogi canolfannau cymuned. Dyma un rheswm pam na chynhaliwyd cyfarfod eto gyda'r canolfannau cymuned. Yr oedd cyfarfod ar y gweill ar gyfer mis Awst, ond ni ddigwyddodd oherwydd na oedd cynrychiolwyr y canolfannau cymuned ar gael. Cafwyd trafodaethau mewnol am egwyddor canolfannau cynnes. Yr oedd yn pryderu fod ymwneud cymunedol mewn rhedeg canolfannau cymuned wedi cwmpo ers y pandemig, ac yr oedd hyn wedi arwain at oedi cynnal cyfarfod.

(viii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J. Hooper**

Allai'r Arweinydd roi cyfoesiad am sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf Metro Dinas-Ranbarth Caerdydd? Carwn iddi gyfeirio'n benodol at bwysau cynyddol chwyddiant a allai gael effaith ar gostau cyfalaf cyffredinol y prosiect.

Ateb gan Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Yr oedd cyllideb wreiddiol Metro Dinas-Ranbarth Caerdydd o £743m yn cynnwys £164m o'r Undeb Ewropeaidd, £445m gan Lywodraeth Cymru a £1.3bn o'r Fargen Ddinesig i Ddinas-Ranbarth Caerdydd a £125m gan Lywodraeth y DU. Mae'r Metro, gyda'i gadwyn gyflenwi gymhleth, wedi dioddef effaith y pandemig COVID oherwydd

nad oes deunyddiau ar gael a bod chwyddiant yn taro'r diwydiant adeiladu yn waeth na chyfradd chwyddiant swyddogol.

Nid yw cof trafndiaeth Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, wedi rhoi unrhyw syniad am y gorwario tebygol, am eu bod yn gweithio trwy ystod o ragamcanion, ond mae'n debygol o fod yn ddegau o filiynau o bunnoedd. Ni ddisgwylir i'r prosiect chwaith gael ei orffen erbyn yr amser gwreiddiol, gyda pheth symud ar waith i'w gyflawni wrth i'r prosiect ddatblygu.

Gofynnais i Trafnidiaeth Cymru am sylwadau ar y gorwario tebygol a beth fydd hyn yn olygu i'r prosiect, a'r ymateb oedd "*Fel cyrff tebyg sy'n cynnal rhaglenni seilwaith mawr, mae gennym effaith cost posib oherwydd cyfraddau chwyddiant cyfredol ac argaeledd deunyddiau.*"

Yr ydym yn parhau i weithio trwy wahanol gamau lliniaru, rhwymedigaethau contractaidd ac effeithiau cost posib gyda'n partneriaid cadwyn cyfenwi a Llywodraeth Cymru a fydd yn cymryd amser i ddod i ben oherwydd cymhlethdod y rhaglen".

Atodol

Gan gyfeirio at anawsterau cael gwybodaeth o wefan Trafnidiaeth Cymru, gofynnodd y Cynghorydd Hooper i'r Arweinydd, gan mai hi oedd unig gyswllt y Cyngor â Chabinet Dinas-Ranbarth Caerdydd, i roi cymorth penodol yn enwedig lle'r oedd materion cyfrinachol Rhan II yn cael eu trafod trwy adrodd yn ôl at Aelodau'r Fro, er mwyn iddynt gael gwybod am unrhyw oblygiadau i deithwyr fyddai am ddefnyddio'r Metro o ardal y Fro.

Atgoffodd yr Arweinydd yr Aelodau fod cofnodion cyfarfodydd Cabinet Dinas-Ranbarth yn cael eu hadrodd i Gabinet y Cyngor. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith fod y Cynghorydd Brooks a'r Cynghorydd Wilson hefyd wedi mynychu cyfarfodydd cysylltiedig â thrafnidiaeth ac y gellid mynd at yr Aelodau Cabinet hynny i gael gwybodaeth. Cytunodd i edrych i mewn i'r hyn oedd yn bosib o ran cyfathrebu a sut y gellid cael gwell tryloywder wrth adrodd a chytunodd i gyfleu hyn i Gabinet y Ddinas-Ranbarth.

(ix) **Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J. Hooper**

Mae bywydau trigolion ar ddatblygiad newydd Glan y Dŵr yn Ward Baruc yn cael eu difetha gan waith sydd heb ei orffen. Mae'r rhain yn cynnwys manau agored cyhoeddus sydd bron dair blynedd y tu ôl i ddyddiad cwblhau'r contract, a ffyrdd a phalmentydd sydd yn dal heb eu mabwysiadu oherwydd pryderon diogelwch, sydd heb eu datrys.

Rwyf wedi cyfarfod â swyddogion o'r adrannau Cynllunio a Phriffyrdd yn hyn o beth a deallaf eu bod hwy, ynghyd a chynrychiolwyr o Gymdeithas Trigolion Cymuned Glan y Dŵr y Barri (BWCRA), wedi dyddio pob dull posib heb fod yn rhai cyfreithiol i gael y Consortiwm (a'i asiantwyr) i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Buom yma o'r blaen. Y tro diwethaf y canfu'r Cyngor y datblygwyr yn amharod i ateb eu hymrwymiaadau contractaidd, aeth yr awdurdod i gyfraith i atal gwerthiant tai hyd nes bod rhai elfennau wedi eu cyflawni. Mae'n amlwg mai ymateb i gyfyngiadau ariannol llym yn unig y mae'r datblygwyr hyn.

Ar ran trigolion Glan y Dŵr, a wnaiff y Cyngor gymryd camau cyfreithiol yn syth yn erbyn y Consortiwm a'i asiantwyr, i atal gwerthiannau ar eu datblygiad yng Nghei'r Dwyrain hyd nes y bydd yr holl waith heb ei gwblhau ar eu safleoedd eraill wedi ei orffen yn llawn?

Ateb gan Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Rwy'n falch fod y Cynghorydd Hooper yn rhannu fy marn pan ddaw'n fater o waith anorffenedig ar lan y dŵr. Fe wŷr fy mod wedi rhannu fy mhryderon mawr cyn hyn gyda'r oedi cyn adeiladu'r ysgol gynradd cyfrwng-Cymraeg newydd ar lan y dŵr ac yr wyf yn falch erbyn hyn fod gwaith ar yr ysgol yn bwrw ymlaen o'r diwedd, a hynny yn unig wedi i'r Cyngor gamu i mewn.

Affraid dweud fy mod yn rhannu pryderon y Cynghorydd Hooper ynghylch elfennau anorffenedig seilwaith cyhoeddus, ac y mae hyn yn flaenoriaeth i mi a'r Cyngor ac fe fyddwn yn adrodd wrth y Cynghorwyr am gynnydd yn hyn o beth.

Mae swyddogion ar hyn o bryd yn gweithio i sefydlu'r mecanwaith cyfreithiol fwyaf priodol i weithredu o ran torri contractau a methiant i gyflwyno'r manau agored angenrheidiol a seilwaith arall.

Mae'n bwysig nodi fod y Cyngor wedi bod yn defnyddio ei bwerau gorfodi ffurfiol ers 2019 i sicrhau fod y consortiwm o adeiladwyr tai yn cyflwyno elfennau pwysig o Gynllun Adfywio Glan y Dŵr. Mae hyn wedi cynnwys y chwarter masnachol a'r ysgol newydd, sydd oll bellach yn cael eu cyflawni, yn ogystal â gwahanol elfennau tirweddu a chynlluniau manau agored. Mae'n anffodus, serch hynny, fod y Cyngor wedi ei orfodi, ac yn dal i gael ei orfodi, i ddefnyddio camau cyfreithiol ffurfiol i wneud i ddatblygwyr gyflawni eu haddewidion a sicrhau y cwblheir datblygiadau yn iawn a'u bod yn cyflwyno ymdeimlad o le i drigolion.

Atodol

Ceisiodd y Cynghorydd Hooper sicrwydd gan yr Arweinydd, o ystyried methiannau presennol y datblygwyr, y cymerir y cam nesaf a'u hatal rhag gwerthu eiddo ar Gei'r Dwyrain.

Dywedodd yr Arweinydd fod yn rhaid i'r Cyngor gymryd gwedd gytbwys a'u bod wedi dwys ystyried cyn cyhoeddi Rhybuddion Stopio yn flaenrol yng nghyswllt canolfan siopa'r ardal. Nid yn unig yr oedd yn rhaid i'r Cyngor ystyried yr unigolion oedd yn prynu bwriadu eiddo, a'r cyhoedd oedd eisoes wedi eu prynu. Byddai'r unigolion hynny wedi eu dal mewn limbo gan eu bod wedi talu blaendal, trefnu morgeisi, a bod Rhybudd Stopio mewn gwirionedd wedi eu hatal rhag symud i mewn am nad oedd yr adeiladau wedi eu gorffen. Nid bwriad y Cyngor oedd cael effaith ar allu'r cyhoedd i gael cartref, ac ailadroddodd nad oedd yn gyfaill i ddatblygwyr eiddo, ac mai sbardun

economaidd yn unig oedd yn eu gyrru. Yr oedd cofnod iddi ddweud nad oedd yn credu mewn eiddo preifat mewn gwasanaethau cyhoeddus, felly byddai'r Cyngor yn ymdrechu i gael datblygwyr i ateb eu cyfrifoldebau.

(x) **Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J. Hooper**

Mae'r tir amgaeedig rhwng Gorsaf Ynys y Barri, Parc Maslin a Heol Plymouth ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio fel iard dorri i ddatgymalu tryciau glo. Mae'r tryciau glo hyn wedi eu stablu ar draciau rheilffordd rhwng gorsafoedd Dociau'r Barri ac Ynys y Barri ers nifer o flynyddoedd.

Bu hyn yn digwydd ers llawer mis, ac y mae'n achosi cryn bryder i'r trigolion sy'n byw gerllaw.

O ystyried effaith amgylcheddol y gweithgaredd hwn, buaswn yn croesawu barn y Cyngor ynglŷn ag y yw hyn yn lleoliad priodol wedi ei drwyddedu'n iawn?

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Nid oes angen caniatâd cynllunio i storio cerbydau ar y tir hwn gan ei fod yn wastad wedi ei gategoreiddio fel tir rheilffyrdd gweithredol. Wedi dweud hynny, mae swyddogion o Gyd-Wasanaethau Rheoleiddio'r Cyngor wedi cwrdd â chynrychiolwyr Trafnidiaeth Cymru (TC) a chadarnhawyd, fel rhan o gaffael y tir gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru ac i ganiatau defnyddio'r depo yn weithredol, rhaid symud y cerbydau rheilffordd o'r safle.

Oherwydd oed a chyflwr y cerbydau, fodd bynnag, mae Network Rail wedi gwahardd eu cludo ar rwydwaith y rheilffyrdd. Mae hyn wedi gadael dau ddewis, sef cludo via llwythwyr isel neu ddatgymalu'r cerbydau i'w symud o'r safle. Mae problemau gyda logisteg y dewis cyntaf gan y byddai angen offer codi trwm, cerbydau arbenigol, ac efallai y bydd angen cau priffyrdd. Felly, mae rhai cerbydau yn cael eu datgymalu ar y safle i'w cludo mewn modd haws ei reoli ar rwydwaith y ffyrdd.

Mae TC yn gobeithio cwblhau'r gwaith hwn ym mis Hydref. Dywedwyd wrthyf yn y dyfodol, na fwriedir defnyddio safle Ynys y Barri ar gyfer unrhyw waith cynnal pellach ac fe'i defnyddir yn hytrach i helpu i gyda gwaith gwella'r rhwydwaith yn y Barri.

Cofrestrwyd safle'r depo gyda'r Swyddfa Rheoleiddio Rheilffyrdd ar drwydded depo TC oherwydd y bwriedir defnyddio'r safle ar gyfer stablu a storio. Fodd bynnag, dan y drwydded, gellir caniatâu 'gwaith cynnal ysgafn' yn unol â Deddf Rheilffyrdd 1993 (er y deallwn nad dyma eu bwriad ar hyn o bryd).

Ymhellach, mae TC wedi ymrwmo i gyfyngu datgymalu'r cerbydau i oriau dyddiau'r wythnos (ac nid cyn 8am), ac o'r herwydd, nid yw'r swyddogion yn teimlo y gellir cefnogi camau ffurfiol yng nghyswllt niwsans sŵn statudol. Tra bydd y gwaith yn parhau, bydd SRS yn sicrhau y cymerir pob cam rhesymol i darfu cyn lleied ag sydd modd ar y trigolion.

Atodol

Ceisiodd y Cyngorydd Hooper sicrwydd gan yr Arweinydd y bydd y materion hyn wedi gorffen erbyn diwedd Hydref fan bellaf.

Dywedodd yr Arweinydd nad oedd hyn yn ei phŵer i'w warantu. Byddai'r Cyd-Wasanaethau Rheoleiddio yn parhau i fonitro'r sefyllfa a gweithio gyda TC a'u contractwr. Nid oedd y gweithgaredd presennol yn groes i'r caniatâd cynllunio cyfredol. Yr oedd yn cydnabod fod y trigolion eisiau i'r cerbydau gael eu symud ac yr oedd yn fater o gydbwysedd i beri i hyn ddigwydd. Byddai'r sefyllfa yn cael ei monitro a bydd y Cyngor yn dal i ddadlau yn erbyn arferion gwrthgymdeithasol.

(xi) Cwestiwn gan y Cyngorydd M.J. Hooper

Beth mae'r Cyngor yn wneud i wneud Ward Baruc yn lle diogel i bobl gerdded, seiclo, loncian a defnyddio sgwteri?

Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Fannau Cynaliadwy

Mae Ward Baruc yn ardal helaeth. Byddaf yn fwy na bodlon rhoi ateb, ond hoffwn i'r cwestiwn fod yn fwy penodol fel y gallaf ymdrin ag unrhyw fater arbennig.

Atodol

Holodd y Cyngorydd Hooper a fyddai'r Aelod Cabinet yn barod i ddod i gerdded gydag ef a thrigolion eraill er mwyn deall y pryderon sydd ganddynt am rai materion diogelwch, yn enwedig o ran plant yn mynd i'r ysgol a dosbarthiadau meithrin ledled Ward Baruc, a threfnu dyddiad addas.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n hapus i wneud hynny.

(xii) Cwestiwn gan y Cyngorydd N.P. Hodges

Ydych chi'n cefnogi'r cais a wnaed i Cadw i restru'n llawn Ddoc Rhif 1 a'r Mole yn y Barri?

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Rwy'n cefnogi unrhyw symudiad i warchod ein treftadaeth gyfoethog ac amrywiol.

Mae'n bwysig nodi mai pwrpas rhestru yw sicrhau y rhoddir ystyriaeth ofalus i adeiladau unigol sydd o ddiddordeb arbennig cyn i benderfyniadau cynllunio gael eu cymryd. Nid yw rhestru yn atal newid, a dylid nodi fod llawer o ddociau wedi eu rhestru ar draws y DU (gan gynnwys rhan o Ddociau'r Barri), ond y mae'n helpu i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n ofalus trwy'r drefn Cydsyniad Adeilad Rhestredig.

Felly rwy'n dweud eto na yw rhestru yn atal newid, a'i bod yn bwysig nad oes neb yn tybio ei fod. Edrychwch ar yr hyn y llwyddwyd i wneud gyda'r Tŷ Pwmp, fel enghraifft

o'r modd y gellir dwyn adeilad rhestredig yn ôl i ddefnydd buddiol fel rhan o adfywio ehangach.

Atodol

Gan gydnabod nad oedd rhestru yn atal newid, dywedodd y Cynghorydd Hodges wrth yr Arweinydd nad am hynny yn benodol yr holodd. Yr oedd wedi gofyn yn benodol a oedd yr Arweinydd yn cefnogi'r syniad fod CADW yn rhestru Doc Rhif 1 hanesyddol a'r Mole a roes fod i'r dref. Petai'n cefnogi, yr oedd yn gobeithio y byddai'n cytuno ei bod yn bryd iddi ddangos arweiniad a thyfu sector treftadaeth a thwristiaeth y dref, ac y byddai ei chefnogaeth yn cael ei basio ymlaen i CADW.

Gan ddweud fod proses CADW ar gyfer rhestru yn beth ar wahân, dywedodd yr Arweinydd na chafodd wybod yn ffurfiol am y rhestru ac eithrio trwy achlust, ac nad oedd yn rhan o'r broses; yr oedd hwnnw'n cael ei reoli gan CADW ar ran Llywodraeth Cymru. Hwy fyddai'n cynnal y broses honno a byddai'r Cyngor yn cadw ato. Atgoffodd y Cynghorydd Hodges ei bod yn werth nodi fod gwaith yn 2016 wedi cychwyn ar Gynllun Lle y Barri a ddatblygodd yn Stori'r Barri, y bu nifer o Aelodau presennol yn rhan ohoni. Cynllun Lle y Barri a luniodd lawer o'r manylion, a chyda'r profiad hwnnw a'r modd y cafodd ei hyrwyddo, nid oedd yn tybio mai mater o ddangos arweiniad ydoedd. Yr oedd yn gwestiwn o barhau â'r hyn fu'n bwrw ymlaen dros y 10 mlynedd diwethaf.

263 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD –

Cyflwynwyd y cwestiynau canlynol ac atebwyd nhw fel y dangosir, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gan y Cyngor ar 5 Mai, 2010.

(i) **Cwestiwn gan Mr. J. Carey**

Hoffwn ofyn pam y codwyd nifer o bwyntiau gwefru trydan o gwmpas y dref ond eu bod wedi eu cyfyngu i e-dacsis a faint yn union o weithiau y cafodd y rhain eu defnyddio, a phan na chânt eu defnyddio gan aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol, a beth yw cynlluniau'r Cyngor i gynnig gwefru trydan i ardaloedd llai ffyniannus Bro Morgannwg?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Gymdogaeth a Gwasanaethau Adeiladu

Gosodwyd 31 o wefryddion deuol 50kw ar draws Dinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n cynnwys 10 awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru fel rhan o raglen i annog cwmnïau tacsis i drosi i gerbydau sero net. Yr oedd astudiaeth a holiaduron yn 2019 yn sail o wybodaeth i Strategaeth Tacsis Dinas-Ranbarth Caerdydd, lle canfuwyd mai un o'r prif resymau pam na fyddai gyrwyr tacsis yn trosi oedd diffyg seilwaith gwefru.

Prynodd Dinas-Ranbarth Caerdydd hefyd 44 o gerbydau Nissan Dynamo 100% trydan, hygyrch, er mwyn rhedeg treial lle gall gyrwyr tacsis ddefnyddio'r cerbydau am 30 diwrnod er mwyn profi manteision y cerbydau trydan hyn, i'w hannog i drosi. Cyflenwyd y seilwaith gwefru i sicrhau bod digon o wefru ar gael, a dangosodd yr astudiaeth fod angen i'r seilwaith fod ar gael yn rhwydd i dacsis ei ddefnyddio, a hyn

sydd yn cyfrif am y ddarpariaeth i dacsis yn unig. Daw'r treial i ben ar 30 Tachwedd 2023.

Mewn llawer ardal ym Mro Morgannwg, dim ond yn ddiweddar yr aeth y gwefryddion yn fyw. Er bod yr unedau gwefru wedi bod yn eu lle ers amser, cymerodd gosod y mesuryddion a chysylltu â'r grid gryn amser i'w drefnu, ac yn anffodus, mae'r gwaith hwn y tu allan i reolaeth y Cyngor.

Mae'r defnydd a wneir o'r pwyntiau hyn yn cael ei fonitro ar hyn o bryd, ac unwaith i'r treial ddod i ben, gwneir penderfyniad ynghylch a fydd angen i'r gwefryddion hyn barhau at ddefnydd tacsis yn unig, neu a fyddai'n andwyol ai peidio i dacsis petaent ar gael hefyd i'r cyhoedd eu defnyddio.

Mae prosiect pellach ar waith i gyflwyno gwefryddion 7kw a 22kw, i'w defnyddio gan y cyhoedd. Ym Mro Morgannwg, mae hyn yn golygu:

Cyfnod 1 = 18 safle (24 gwefrydd deuol), a
Cyfnod 2 = 22 safle (22 gwefrydd deuol).

Rhagwelir y bydd Cyfnod 1 sy'n digwydd ar hyn o bryd yn gyflawn erbyn diwedd Hydref 2022, ac yn amodol ar gymeradwyo'r cyllid, dylai Cyfnod 2 fod yn fyw ac yn gweithio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

(ii) **Cwestiwn gan Mr. R. Curtis**

Mae'r argyfwng costau byw wedi golygu fod pobl angen ffyrdd newydd o gyrchu bwyd lleol a maethlon. Mae bron i 87% o awdurdodau lleol yn adrodd am gynnydd yn y galw am lefydd mewn rhandiroedd. Mae rhandiroedd lleol yn fannau gwyrdd gwerthfawr sydd yn helpu i wella iechyd corfforol a meddyliol yn ogystal â helpu pobl i leihau eu hól troed carbon. A fuasech cystal â rhoi gwybod i mi a oes gan Gyngor Bro Morgannwg gynlluniau i gynyddu faint o lefydd sydd ar gael mewn rhandiroedd, ac os felly lle a phryd?

Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Fannau Cynaliadwy

Diolch Rob am eich cwestiwn. Ar hyn o bryd mae 23 o randoedd cyhoeddus a phreifat ym Mro Morgannwg, sef cyfanswm o ryw 19ha o dir, sy'n cyfateb yn fras i 46 cae pêl droed.

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Amgen newydd i ymdrin â'r cyfnod hyd at 2036 ac fel rhan o'r broses hon, caiff y ddarpariaeth rhandiroedd ei asesu. Mae'r Cyngor hefyd yn datblygu Cynllun Seilwaith Gwyrdd a bydd hyn yn hybu defnydd amrywiol o fannau gwyrdd, gan gynnwys defnyddio mannau gwyrdd i gynhyrchu bwyd, megis rhandiroedd a gerddi cymunedol.

(iii) **Cwestiwn gan y Dr. A. Barratt**

Yn ôl amcangyfrifon y Cyngor ei hun, disgwylir i Ysgol Gynradd South Point fod â rhwng 14% a 27% o lefydd dros ben i ddisgyblion ymhen pum mlynedd. Pa fesurau mae'r Cyngor yn gymryd i ymdrin â'r lefel uchel hon o lefydd dros ben yn yr ysgol

newydd, a pha effaith mae hyn yn debyg o gael ar sefyllfa staffio ac ariannol yr ysgol, a rheoli llefydd i ddisgyblion ar draws Gorllewin y Fro?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg

Mae'r ffigyrau dros ben y cyfeirir atynt yn unig at y dyraniad tai dros ben a'r niferoedd tai posib a fydd i ddod ar y safle. Fel y dywedwyd eisoes, nid yw hyn yn cymryd ystyriaeth o gynnydd yn y derbyniadau i ysgolion o un flwyddyn i'r llall oherwydd effaith cadarnhaol a'r cyfleoedd addysgiadol y mae adeilad ysgol yn ddwyn i ardal. Bu cynnydd yn nifer y plant sy'n trosglwyddo i'r ysgol a byddai'r Cyngor yn disgwyl i'r niferoedd dyfu ymhellach nawr fod gan yr ysgol bresenoldeb amlwg yn yr ardal ac o ganlyniad i'r cyfleusterau mwy modern a gynigir yn yr ysgol newydd.

O ganlyniad, bydd y Cyngor yn parhau i adolygu'r llefydd dros ben yn yr ysgol yn y tymor byr i ganol i olrhain sut y mae nifer y llefydd dros ben yn gostwng. Os bydd nifer uchel o lefydd dros ben o hyd ar derfyn y cyfnod o 5 mlynedd ers i'r ysgol agor, bydd y Cyngor yn ystyried mesurau i wella nifer y disgyblion sy'n dod i'r ysgol. Gallai hyn gynnwys adolygu'r dalgylch; fodd bynnag, byddai angen ystyried mesurau penodol ar y pryd ar sail y cyd-destun perthnasol.

O ran staffio, trosglwyddwyd y staff presennol o Ysgol Gynradd Llancarfan i'r adeilad newydd ar eu contractau presennol. Mae'r Cyngor yn disgwyl i niferoedd y disgyblion gynyddu yn yr ysgol dros y cyfnod 5 mlynedd nesaf ar sail mwy yn dod o'r ardal gyfagos ac o ddatblygiadau tai sydd eto i'w codi yn y dalgylch. Byddai angen i'r corff llywodraethol a'r Pennaeth ddatblygu strwythur staffio mwy i ofalu am y cynnydd mewn niferoedd dros amser. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i staffio yn gorfod bod yn amodol ar ymgynghori llawn â'r staff a'r undebau llafur perthnasol lle bo angen. Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn rhoi cefnogaeth lawr i lywodraethwyr, Pennaeth a staff yr ysgol gydag unrhyw faterion cyflogaeth.

Mae cyllid yr ysgol yn cael ei weithio allan trwy fformiwla gyllido'r ysgolion. Mae'r fformiwla gyllido yn cyfrif am sawl ffactor sydd yn cynnwys niferoedd disgyblion, unedau disgyblion gyda phwysiad yn ôl oedran, dyraniadau arwynebedd lloriau, cyllid ADY, dyraniadau symiau crynswth a thalu am arlwy a chlybiau brecwast. Mae'r cyllid a ddyrennir ar niferoedd disgyblion er mwyn sicrhau fod gan yr ysgol ddigon o arian i dalu am y garfan ddaw i mewn ym mis Medi i gefnogi'r disgyblion sy'n dod i'r ysgol. Daw costau rhedeg yr adeiladau dan y dyraniad arwynebedd lloriau ac unrhyw ddyraniadau symiau crynswth perthnasol. Er bod llai o ddisgyblion nag a ragwelwyd wedi dod i'r ysgol, nid yw hyn wedi effeithio ar redeg yr ysgol o safbwynt ariannol.

Newidiwyd dalgylch Ysgol Gynradd Llancarfan fel rhan o'r ymgynghoriad statudol i symud yr ysgol i'r Rhŵs. Mae dalgylch newydd yr ysgol yn awr yn cynnwys ardal ddwyreiniol y Rhŵs i gyfrif am y datblygiad tai newydd. O ran rheoli llefydd dros ben, bydd y Cyngor yn defnyddio ei Bolisi Trefniadau Derbyn i Ysgolion i reoli llefydd mewn ysgolion.

(iv) Cwestiwn gan y Dr. A. Barratt

Yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, collodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg bwynt cwestiwn a ofynnais am ragdybiaethau modelu llefydd disgyblion (cwestiwn vii). Fe ail-luniai y cwestiwn er mwyn eglurder: cwblhawyd y datblygiad tai a godwyd i'r gogledd-orllewin o lein y rheilffordd yn y Rhŵs, ac y mae'r galw am lefydd yn yr ysgol gynradd yn is nac a ragfynegwyd gan y Cyngor. A yw'n bryd felly adolygu rhagdybiaethau modelu'r Cyngor i atal cenhedlaeth o lefydd dros ben o ddatblygiadau ysgolion newydd yn y dyfodol?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg

Fel y dywedwyd eisoes, mae'r ffactor nifer disgyblion o ddatblygiadau tai ym Mro Morgannwg yn debyg i'r fethodoleg a ddefnyddir gan awdurdodau lleol eraill. Mae methodoleg y Cyngor i weithio allan nifer disgyblion o ddatblygiadau tai a rhagamcanion disgyblion yn gyson, ac y mae'r Cyngor yn fodlon ei fod yn adlewyrchu'r amodau cyfredol at ddibenion cynllunio llefydd mewn ysgolion. Mae'r datblygiad cyfredol o 317 uned yng Ngolwg y Môr, heb gynnwys unedau 1 gwely, wedi golygu bod 31 o blant oed meithrin ac 85 o blant oedran cynradd yno, o gymharu â rhagfynegiadau methodoleg y Cyngor o 32 o blant oed meithrin ac 88 o blant oedran cynradd i nifer yr unedau a godwyd. Mae hyn yn wahaniaeth o 1 yn unig o blant meithrin a 3 o blant cynradd. Ystyria'r Cyngor fod y fethodoleg bresennol yn adlewyrchu'r amodau o ran pennu niferoedd disgyblion fydd yn deillio o ddatblygiadau newydd ym Mro Morgannwg sydd yn cael ei gadarnhau gan niferoedd y disgyblion hyd yma.

Mae'r Cyngor yn fodlon fod ei ddull modelu niferoedd disgyblion o ddatblygiadau tai newydd yn adlewyrchu'r amodau cyfredol am lefydd ysgol at ddibenion cynllunio ym Mro Morgannwg. Nid oes cynlluniau i adolygu'r fethodoleg yn y dyfodol agos. Er hynny, bydd y Cyngor fel mater o drefn yn adolygu ei fethodoleg o bryd i'w gilydd ac yn ei newid os ystyrir bod angen gwneud hynny.